| Enw'r Prosiect | Enw'r Cwmni Ymgeisio | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|---|
| **Cerddoriaeth** | | |
| Datblygu Rheolwyr Cerdd yng Nghymru | Music Managers Forum (MMF) | Bydd y prosiect hwn yn rhoi hyfforddiant cychwynnol a sylfaenol er mwyn cyflymu'r broses o ddatblygu sgiliau rheolwyr cerddoriaeth ar draws Cymru mewn meysydd fel hawlfraint, breindaliadau, a dosbarthu cerddoriaeth yn ddigidol. |
| Sesiynau Sgiliau ar gyfer Lleoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad | Music Venue Trust | Nod y prosiect yw darparu hyfforddiant DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) i reolwyr lleoliadau, a gwella'u sgiliau, o ran creu a rheoli rhaglen mewn Lleoliad Cerddoriaeth Llawr Gwlad. Mae'r sesiynau hyfforddi yn cynnwys: meithrin perthynas â hyrwyddwyr allanol, hyrwyddo mewnol effeithiol, taliadau, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus, a setliadau gweinyddol ac ariannol. Mae manteision hyfforddiant o'r fath yn fesuradwy, ac maent yn darparu sail resymegol o ran effaith ddisgwyliedig hyfforddiant DPP o'r fath – ar y lleoliadau eu hunain a'r effaith gadarnhaol bosibl ar yr economi leol ehangach.<br><br>Caiff y rhaglen hyfforddi ei chyflwyno mewn cyfres undydd o weithdai wyneb yn wyneb. Bydd y digwyddiad undydd yn cael ei gynnal mewn pedair ardal yng Nghymru: Caerdydd, Abertawe, Wrecsam ac Aberystwyth. Bydd hefyd ar gael ar-lein er mwyn ei ddarparu'n ehangach, a rhoddir cyfres o adnoddau dwyieithog i'r rhai a fydd yn mynychu'r gweithdai, yn gysylltiedig â'r hyfforddiant. |
| Beacons Cymru | Beacons | Datblygu llwybrau newydd o gefnogaeth a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ar gyfer gweithlu newydd amrywiol ac iach yn niwydiant cerddoriaeth Cymru.<br><br>Resonant – nod y prosiect hwn yw grymuso pobl ifanc (18-25 oed) sy'n uniaethu â rhyweddau a ymyleiddir i weithio y tu ôl i'r llenni yn niwydiant cerddoriaeth Cymru.<br><br>SUMMIT 2024 – cynhadledd arloesol yn y diwydiant cerddoriaeth, a gynllunnir ac a gyflwynir gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru (y bedwaredd uwchgynhadledd) |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bŵts - cyfres ddwyieithog newydd o fideos gyrfa ynghylch llwybrau pwysig i weithlu'r diwydiant cerddoriaeth. Bydd y gyfres hon yn rhoi cipolwg ar brofiadau gweithwyr proffesiynol y diwydiant cerddoriaeth sy'n gweithio yng Nghymru ac yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu dyfodol yn hyderus.<br><br>Transform Music i ddatblygu pecyn hyfforddi ochr yn ochr â darparwyr hyfforddiant Umbrella Cymru, arbenigwyr cymorth Amrywiaeth Rhywedd a Rhywiol Cymru. Bydd y bartneriaeth hon yn canolbwyntio ar wneud y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru yn fwy diogel i bobl drawsryweddol ac anneuaidd, ac yn fwy cynhwysol iddynt. Ar ôl ei ddylunio, caiff y pecyn hyfforddi hwn ei gyflwyno i chwech o randdeiliaid y diwydiant cerddoriaeth ledled Cymru.<br><br>Prosiect Rheolwyr Cerdd – cwrs byr ar hanfodion rheoli cerddoriaeth, sy'n cynnig cipolwg sylfaenol ar rôl rheolwr, gan ffurfio rhwydwaith newydd ar yr un pryd o reolwyr cerddoriaeth sy'n gweithio yng Nghymru. |
| | **Sgrin** | |
| Rhaglen Beilot Busnes ac Arweinyddiaeth | NFTS Cymru | Bydd y prosiect hwn yn darparu hyfforddiant pwrpasol i arweinwyr, rheolwyr a chynhyrchwyr sy'n gweithio ym maes teledu a ffilm yng Nghymru i roi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i redeg busnes creadigol llwyddiannus, a rhoddir pwyslais sylfaenol ar fasnacheiddio a galluogi pobl i ddatblygu eu busnes drwy sicrhau cyllid, manteisio ar eiddo deallusol, symud i gyfeiriad byd-eang, recriwtio mewn ffordd gynhwysol a chynllunio i'r dyfodol.<br><br>Bydd dosbarthiadau meistr yn cael eu harwain gan ffigurau blaenllaw o'r diwydiannau creadigol, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a'r tu allan iddi, a fydd yn rhannu eu harbenigedd proffesiynol eu hunain. |
| Academïau Sgrin Cymru | Prifysgol De Cymru | Nod y prosiect hwn yw creu 3 Academi Sgrin newydd o fewn stiwdios i ddarparu'r sgiliau, yr addysg a'r hyfforddiant a all gefnogi'r genhedlaeth nesaf o dalent Cymreig i ffynnu yn y diwydiant hwn. Bydd gan bob un o'r Academïau hyn ei phroffil ei hun a byddant yn gweithio gyda chyflogwyr y diwydiant i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant sy'n benodol i'w lleoliad: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd Academi Greatpoint Studios yn canolbwyntio ar y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar gyfer gofod Cynhyrchu Rhithiol newydd y stiwdio;<br><br>Bydd Academi Wolf Studios yn cefnogi hyfforddiant i arloesi mewn technoleg animeiddio a gemau, a'i rôl gynyddol wrth gynhyrchu ar gyfer y sgrin;<br><br>Bydd Academi Aria Studios yn darparu'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi a datblygu gwaith cynhyrchu dramâu cyfrwng Cymraeg a rhyngwladol. |
| Re-Focus | Hijinx | Hyfforddiant ar gynnwys pobl ag anableddau dysgu drwy chwarae rôl yw Re-Focus ar gyfer y diwydiant sgrin, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg difrifol o ran y bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistig sydd ar y sgrin a'r tu ôl i'r camera.<br><br>Mae dwy ran i'r prosiect hwn; bydd y gyntaf yn ddiwrnod o hyfforddiant wyneb yn wyneb gan ddefnyddio sesiynau theatr fforwm a chwarae rôl hamddenol dan arweiniad actorion Hijinx sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Mae'r sesiynau yn adlewyrchu senarios bob dydd, gan ddarparu enghreifftiau bywyd go iawn o sefyllfaoedd ar y set, ym maes ôl-gynhyrchu ac yn ystod y broses o ddatblygu prosiect sgrin.<br><br>Ail ran y prosiect yw sefydlu Asiantaeth Galluogi Creadigol, gan ddarparu galluogwyr creadigol wedi'u hyfforddi ar gyfer y sector i gefnogi pobl ag anableddau dysgu/awtistiaeth i gael gwaith. Byddai'r cyllid yn helpu i hyfforddi pwll o alluogwyr creadigol y gellir wedyn gysylltu â nhw i weithio gyda chynyrchiadau. |
| Hyfforddiant ar gyfer y Dyfodol | Sgil Cymru | Bydd y cynnig hwn yn darparu budd mesuradwy i 130 o unigolion yn y sector sgrin yng Nghymru drwy nifer o gynlluniau, gan gynnwys:<br><br>Rhaglenni hyfforddi i ddechreuwyr; rhaglen 'cam nesaf' ar gyfer unigolion y nodir eu bod yn barod i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd; Bwrsariaethau Dysgu Gyrru a Bwrsariaethau Caledi i brentisiaid. |
| Rhaglen Datblygu Penaethiaid Adrannau yng Nghymru | ScreenSkills | Cefnogi darpar benaethiaid adrannau i gysgodi/gweithio ochr yn ochr â phenaethiaid adrannau presennol ar gynyrchiadau teledu o ansawdd, gan eu galluogi i gael profiad/credyd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Digidol** | | |
| Ffowndri Datblygwyr Gemau Cymru | Iungo Solutions | Rhaglen naw mis gan ganiatáu nifer o bwyntiau mynediad ac ymadael i ddarparu ar gyfer ystod o rolau technegol o fewn y diwydiant gemau.<br><br>Bydd y Ffowndri yn targedu'r unigolion hynny sy'n perthyn i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n newid gyrfa, a phobl sy'n perthyn i grwpiau nad ydynt yn cael eu cyflogi'n ddigonol, gan eu cefnogi i wella eu sgiliau ar gyfer rolau ym maes dylunio a datblygu gemau. |
| Gêm | Media Academy Cymru | Hyb Gemau lefel mynediad annibynnol i gefnogi datblygiad strategol darpariaeth hyfforddiant sy'n cwmpasu gofynion lefel mynediad ar lefelau 1, 2 a 3 fframwaith BTEC, gyda'r nod o ddatblygu gweithlu creadigol sy'n adlewyrchu pob cymuned. |
| Academi Hollow Pixel | United Filmdom Ltd | Rhaglen brentisiaeth animeiddio (Lefel 4 Cyfryngau Rhyngweithiol) gyda ffocws ar Blender sy'n dod i gael ei ystyried yn feddalwedd safonol y diwydiant ar gyfer animeiddio 3D. |
| **Traws-sector** | | |
| Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru / Music Futures / Professional Pathways | Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru | Bydd Professional Pathways yn recriwtio 45 o berfformwyr theatr ifanc mwyaf talentog Cymru – rhwng 16 a 22 oed – i raglen hyfforddiant breswyl ddwys, gan roi cyfle iddynt weld drostynt eu hunain yr ystod o sgiliau trosglwyddadwy sydd yna o fewn sectorau'r theatr, sgrin a digidol.<br><br>Mae Music Futures yn brosiect cerddoriaeth gyfoes ar gyfer 20 o bobl ifanc rhwng 15 a 19 oed, gan roi cipolwg iddynt ar y diwydiant cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru. Mae'n cynnig profiad realistig o'r diwydiant, a golwg ar yrfa waith cerddor, gan fynd drwy gylch llawn y broses o ysgrifennu caneuon – o ysgrifennu a recordio i berfformio, teithio, a hyrwyddo. |
| Cynaliadwyedd Digidol Creadigol, Pobl, Llwybrau, Rhagolygon | Msparc | Rhaglen ar gyfer 250 o ddisgyblion blwyddyn 7 yw Creative Sparc, sy'n gweithio gyda 10 ysgol uwchradd ledled Conwy, Gwynedd a Môn, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd mewn cymunedau economaidd-gymdeithasol isel, a chefnogi profiad gwaith i ddau ddisgybl o bob ysgol gysylltiedig, ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 ac 11. Mae'r rhaglen yn gydnaws â'r cwricwlwm newydd, mae'n cyfuno sgiliau meddal, yn cynnwys gweithgareddau trawsgwricwlaidd, ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn ymateb i anghenion gyrfa a swyddi lefel mynediad. Bydd y prosiect yn ymgorffori pynciau STEM gan ganolbwyntio ar sain digwyddiadau byw a theledu ar gyfer ffilmiau, gydag arbenigwyr a Premier dull 'carped coch' o'u ffilm eu hunain.<br><br>Bydd yr Academi Sgiliau yn gweld dwy garfan o 5 unigolyn yr un, sydd naill ai'n raddedigion diweddar neu'n awyddus i wella eu sgiliau, yn cael eu gosod mewn busnesau sgrin, cynnwys digidol neu gerddoriaeth yng Nghonwy, Gwynedd a Môn. Cânt eu cyflogi gan M-SParc, a bydd y cwmnïau y cânt eu lleoli gyda nhw yn cael cefnogaeth i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau, gyda'r bwriad y byddant yn mynd ymlaen i gael eu cyflogi.<br><br>Bydd NetZero Pathway yn rhoi adolygiad digidol llawn i 12 o fusnesau yn y sector Creadigol-Digidol, gan fesur eu hôl-troed carbon a rhoi map clir o sut i ostwng eu hallyriadau carbon. Bydd y gwaith hwn yn gysylltiedig ag ALBERT, a bydd NetZero Pathway yn gwella sgiliau busnesau i ddeall yn llawn beth mae eu hôl-troed carbon yn ei olygu, a sut y gallant ostwng eu hallyriadau gydag ymwybyddiaeth glir o'r effaith y mae hyn yn ei chael yn ariannol ac yn ecolegol ar eu busnes a'u hamgylchedd. |
| Peilot Grymuso Gweithwyr Creadigol Llawrydd | Prospect (Bectu) | Hyfforddi 12 o gynrychiolwyr dysgu undebau llawrydd a hyfforddi 15 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl ar draws y pedwar undeb creadigol sy'n gweithio yn sectorau Sgrin, Digidol a Cherddoriaeth. |
| **Cyllid partneriaeth** | | |
| **Mae'r holl brosiectau canlynol wedi sicrhau cyllid gan sawl partner, gan gynnwys darlledwyr, cyrff ariannu cenedlaethol a sefydliadau eraill o fewn y diwydiant;** | | |
| UK TV Accelerator | IndieLab | Mae'r rhaglen hon, sydd ar lefel y DU, yn gweithio gyda darpar gwmnïau annibynnol, gan eu helpu i gynyddu eu comisiynu a'u twf refeniw, dod o hyd i gyllid a buddsoddiad ac ehangu eu rhwydwaith o gysylltiadau o fewn y diwydiant. Bydd cyllid bwrsariaeth yn galluogi nifer o gwmnïau teledu yng Nghymru i gymryd rhan, dod â'u harbenigedd i'r garfan, a'u profiadau i economi greadigol Cymru. |
| UK Digi Games Accelerator | IndieLab | Bydd Indielab Games Celtic Accelerator yn cefnogi stiwdios sy'n datblygu ym mhob cwr o Gymru a'r Alban i ddod o hyd i'r wybodaeth, y |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhwydweithiau a'r buddsoddiad sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Bydd y rhaglen yn darparu tri mis o gefnogaeth, ac yn cynnwys dosbarthiadau meistr manwl pwrpasol, a sesiynau briffio gydag arweinwyr y diwydiant, stiwdios mawr, buddsoddwyr, cyhoeddwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y sector. |
| rad Cymru | TRC | Rhaglen hyfforddi wyth mis â thâl yw rad Cymru ar gyfer wyth hyfforddai mewn cwmni cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae'r fenter hon yn helpu i gael gwared ar rwystrau a galluogi pobl o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ddod o hyd i leoliadau a hyfforddiant â thâl, ynghyd ag arweiniad. |